Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Eich cyf / Your ref:

Fy nghyf / My ref:

Dyddiad / Date: 15/06/2026

Gofynner am / Please ask for: Tîm RhMY

Llinell Uniongyrchol / Direct Line:

E-bost / E-mail:

RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Annwyl Ymgynghorai,

**Hysbysiad ynghylch Penderfyniad y Cyngor Sir –**
**Cynnig i ad drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn ardal tref Rhydaman**

Ar ddydd Mercher 10 Mehefin, gwnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin benderfynu cymeradwyo'r cynnig canlynol:

**Cynnig i ad drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn ardal tref Rhydaman o fis Medi 2026 drwy:**

1. **Cau Ysgol Feithrin Rhydaman o 31 Awst 2026**

**Yn ogystal ag**

2. **ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4-11 i 3-11**

3. **ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11**

**i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Feithrin Rhydaman**.

**Gwrthwynebiadau i'r Cynnig**

Derbyniwyd 25 o wrthwynebiadau.

Wrth ddod i'w benderfyniad, mae'r Cyngor Sir wedi rhoi sylw i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ac wedi ystyried y ffactorau perthnasol a nodir ynddo. Nododd y Cyngor fod 25 o wrthwynebiadau a 4 sylw cefnogol wedi'u derbyn mewn perthynas â'r cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Ystyriodd y Cyngor yn ofalus gynnwys y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymateb yr Awdurdod Lleol fel y nodir yn yr Adroddiad Gwrthwynebiad a gyhoeddwyd. Mae'r Cyngor yn fodlon bod y materion a godwyd yn y gwrthwynebiadau wedi cael sylw yn briodol ac nad ydynt yn gorbwyso manteision y cynnig.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebiad ar gyfer y cynnig uchod ar gael i'w weld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin drwy ddilyn y ddolen isod:

Adroddiad Gwrthwynebu

**Ystyried Ffactorau o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018)**

Wrth benderfynu ar y cynnig, mae'r Cyngor Sir wedi rhoi sylw i'r ffactorau a nodir ym mharagraffau 1.3 i 1.7 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan gynnwys yn benodol y canlynol:

**Ansawdd a Safonau mewn Addysg**

Barn y Cyngor yw y byddai Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn darparu addysg i ddisgyblion 3-11 oed sydd o ansawdd cyfatebol o leiaf â'r ddarpariaeth 4-11 oed a ddarperir ar hyn o bryd, ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn hwn yn cael effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol.

Mae Estyn wedi cynghori bod y cynnig yn "*debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysgol a safonau disgyblion yn yr ardal*". Mae hyn yn cefnogi'r farn y bydd y cynnig yn cynnal addysgu a dysgu o ansawdd uchel ac yn darparu parhad ym mhrofiadau addysgol disgyblion o oedran cynharach yn yr ysgolion amgen.

Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Pennaeth a'r corff llywodraethu priodol i sicrhau trosglwyddiad llyfn i ysgolion amgen.

**Yr Angen am Leoedd a'r Effaith ar Hygyrchedd Ysgolion**

Wrth gymeradwyo'r cynnig hwn, mae'r Cyngor wedi ystyried digonolrwydd lleoedd a'r galw tebygol am leoedd yn y dyfodol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth amgen yn ddigonol o ran capasiti, ansawdd ac addasrwydd i ddiwallu anghenion yr holl blant yr effeithir arnynt.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn mynnu bod yn rhaid i ddarpariaeth amgen fod o leiaf yn gyfwerth â'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd, a bod trefniadau pontio ar waith i leihau aflonyddwch. Bydd y plant yn cael eu trosglwyddo i naill ai Ysgol Bro Banw neu Ysgol Gymraeg Rhydaman yn dibynnu ar ddewis y rhieni. Bydd digon o gapasiti yn y ddwy ysgol i ddarparu ar gyfer y plant sydd wedi'u dadleoli.

Bydd yn galluogi plant i gael mynediad at ddarpariaeth feithrin yn eu hysgol leol, gan leihau'r angen am deithio i leoliadau amgen. Disgwylir i hyn gael effaith gadarnhaol ar hygyrchedd, lleihau amseroedd teithio, a lleihau pwysau logistaidd ar deuluoedd.

Mae cyd-leoli darpariaeth feithrin a darpariaeth gynradd hefyd yn debygol o wella parhad y ddarpariaeth a hwyluso pontio i ddysgwyr, yn enwedig i deuluoedd â brodyr a chwiorydd sy'n mynychu'r un ysgol.

**Adnoddau Addysg**

Y prif sbardun ar gyfer y cynnig yw penderfyniad y Cyngor i ddileu'r *Polisi Plant sy'n Codi 4* Oed ym mis Mawrth 2024. Mae'r newid hwn yn golygu y bydd plant yn dechrau ysgol llawn amser y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn bedwar mlwydd oed, gan greu angen adolygu'r ddarpariaeth feithrin er mwyn cysondeb ar draws Sir Gaerfyrddin. Ysgol Feithrin Rhydaman oedd yr unig ysgol feithrin annibynnol yn y sir, ac roedd ei model llawn amser yn wahanol i'r holl ddarpariaeth feithrin ysgolion eraill. Nôd y newidiadau arfaethedig yw safoni'r ddarpariaeth, gwella parhad addysg, ac alinio â blaenoriaethau cenedlaethol megis Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r Cyngor wedi cadarnhau y bydd Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw yn parhau i gael eu hariannu yn unol â Pholisi Cyllido Teg yr Awdurdod. Bydd yr ysgolion yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag ysgolion eraill yn y sir, gyda chyllid yn cael ei bennu'n bennaf gan niferoedd disgyblion. Mae'r dull hwn yn sicrhau

bod y cynnig yn gynaliadwy yn ariannol ac nad yw'n effeithio'n andwyol ar adnoddau darpariaeth addysg yn yr ysgol neu mewn mannau eraill.

**Effaith ar y Gymraeg**

Wrth benderfynu ar y cynnig, mae'r Cyngor Sir wedi rhoi sylw i baragraff 1.4 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan gynnwys y gofyniad i ystyried effaith y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'i aliniad â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod.

Mae'r cynnig yn cefnogi datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg drwy barhau i ddarparu mynediad at ddarpariaeth meithrin cyfrwng Cymraeg yn yr ardal leol. Rhagwelir y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ac yn cefnogi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod.

Mae'r Cyngor wedi ystyried effaith debygol y cynnig ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ehangach ac mae'n fodlon y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, a bod y cynnig yn gyson â'r amcanion a nodir yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod.

**Penderfyniad**

Ar ôl ystyried y ffactorau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), ac am y rhesymau a amlinellir uchod, mae'r Cyngor Sir wedi penderfynu cymeradwyo'r cynnig.

**Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru**

Sylwch nad yw'r wybodaeth isod yn berthnasol i rieni / gwarchodwyr ond mae wedi'i darparu er mwyn cyflawned.

Os oes unrhyw un o'r cyrff canlynol yn credu y gwnaethpwyd penderfyniad anghywir gan yr Awdurdod Lleol, yna o dan adran 54 o Ddeddf 2013 gallent o fewn 28 niwrnod gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:-

- Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff Llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r tîm RhMY.

Yn Gywir,

**Tîm Rhaglen Moderneiddio Ysgolion**